



# Llais Y Derwent

Gwanwyn 2007

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Rhif 7 Pris 25c

## Newyddion

CROESO i Lais Y Derwent rhif 7, a chroeso hefyd i 2007 a thymor newydd sbon. Mae'r dosbarth Cymraeg wythnosol Derby dal i fynd. Mae'n aelod newydd wedi ymuno a ni, sef Marc Whittaker, felly croeso Marc.

Mae'r Cylch Ddysgwyr Cymraeg Derby yn mynd ymlaen bob bore Dydd Mawrth ond mae gynnon ni aelod newydd, sef Mair Davies. Mae Mair yn dod yn wreiddiol o Gonwy ond bellach mae hi'n byw yn Nottingham. Mae presenoldeb Mair, fel yr unig Cymraes Cymraeg yn y grwp, yn gymorth enfawr.

Mae'r dosbarth Cymraeg WEA yn Belper, ar ôl dechrau yn hen Ysgol y Fleet wedi symud lleoliad i Gapel San Sion. Mae'r capel wedi cael ei adeiladu ym 1280 dim ond dwy flynedd cyn cafodd Llewellyn yr Olaf ei ladd. Mae hi'n adeilad hyfryd sy wedi cael ei addasu yn dda ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus fel y dosbarth. Mae'r dosbarth yn symud ymlaen yn dda. Bob wythnos ar ôl y dosbarth mae'n a grwp bach yn mynd i'r dafarn cyfagos, y Grapes, er mwyn cymdeithasu trwy'r gyfrwng y Gymraeg. Os oes unrhywun eisiau dod draw am sgwrs mi fydd'n groeso cynnes.

Aeth cyfarfod cyntaf y flywddyn Clwb Clebran Matlock ar nos Lun 15 Ionawr yn dda iawn efo wyth o bobl yn bresennol. Mae'r cyfarfod nesa yn yr Hurt Arms, Ambergate, Nos Llun 12 Chwefror am hanner awr wedi saith.

Yn Nottingham mae'r Boreau Coffi efo popeth yn Gymraeg sy wedi dechrau yr haf diwethfa yn cyfarfod bob mis rwan er mwyn cael sgwrs yn y Gymraeg, coffi a wedyn rhywbeth i fwyta! Cysylltu a Viv Harris / Gwynne Davies am fanylion pellach.

Yn olaf dan ni angen bobl i sgwennu erthyglau bach, sef 200-400 o eiriau ar gyfer Llais y Derwent. Peidiwch a phoeni os dydach chi ddim yn ysgrifennu yn berffaith. Mi fydd popeth yn cael ei gywiro os bydd angen. Felly afonwch eich erthyglau i Lais Y Derwent, 47 High Street, Belper, Derby. Diolch i bawb sy wedi cyfrannu erthyglau ar gyfer y rhifyn presennol.

Golygydd

## Llwybr Tarw Go Iawn.

Ar ddiwrnod braf o wanwyn roedd henwr yn gweithio, ar ei ben ei hun, yn cyweirio ffordd fferm mewn lle anghysbell ger Llanwynno, Sir Forgannwg.

Dai Cardi Caws oedd ei lysenw, pensiywr un o byllau glo Cwm Cynon ond yn wreiddiol yn was fferm Sir Aberteifi. Roedd pentyrrau bychain o gerrig ar bwys tyllau yn wyneb y ffordd; i'w torri i lenwi'r tyllau. Gwaith hawdd, a phleserus, yn haul y Gwanwyn. Yr arfer oedd defnyddio morthwyl gyda choes hir ac yr oedd Dai bob amser yn hapus iawn yn gweithio yn yr awyr iach, yn hytrach na *'dan ddaear yn yr hen bwll glo'*. Byddai'n bleser ganddo hefyd ennill ychydig o arian parod i

brynnu peint neu ddau o gwrw!

Roedd gweithio yng nghefn gwlad mor hed-dychol; dim ond swm y morthwyl ar y cerrig, brefiadau'r defaid, can yr adar, a nawr ac yn y man cnoell y coed gwyrdd yn chwerthin yn uchel.

Eisteddai Dai bob hyn a hyn i fwyta ei frechdan gaws ac i yfed y te oer o'i botel. Gyda'r haul ar fin machlud roedd yn hen bryd troi am adref. O leia byddai'r daith i lawr yn haws na'r un lan y cwm yn y bore!

Pan gyrhaeddodd Dai ymylon buarth ffermdy y Ffynnonwym roedd hi'n nosi, a chan nad oedd ond hanner ffordd adref penderfynai adael y llwybr cyhoeddus a dilyn y ffrwd fach lawr at yr hen reilffordd i dorri ei siwrnai. \*

Roedd e hanner ffordd ar draws cae mawr pan synhwyrodd yr henwr bod gwartheg yno er na allai eu gweld yn y tywyllwch.

Yna cafodd Dai ofn mawr. Clywodd ruid tarw a swm carnau yn carlymu i lawr y cae tuag ato!

Ceisiodd ddianc i ddiogelwch clwyd pen draw'r cae - ond dim ond yn ara deg y gallai'r henwr redeg tra bo gwartheg yn gallu redeg yn gyflymach na dynion ifanc hyd yn oed!

Erbyn hyn gallai Dai weld y tarw yn nesau drwy'r tywyllwch ac ofnai ei fod ar fin cael ei ladd gan nad oedd cyfle o gwbl yn erbyn anifail mor gryf a mor wyllt.

Roedd Dai allan o wynt yn llwyr erbyn hyn - felly safodd yn stond a wynebu'r tarw sy'n rhuthro tuag ato.

'O leia', meddyliodd, 'gallaf daro un ergyd arno fe i amddiffyn fy hun'.

A felly y safodd yr henwr, fel cerflun, gyda'i forthwyl hirgoes uwch ei ysgwyddau.

Stopiodd y tarw yn ddisymwyth; reit o'flaen Dai, a'r ddau yn llygadrythu ei gilydd am gynau fach!


Wedyn, trodd y tarw rownd a cherdded yn araf deg, ac yn ddifater, yn ôl at y buchod!

Mae'r stori yna yn seiliedig ar un o straeon fy hen ewythr sef, 'Wncl Jacob' ac yn stori wir. O leia yn ôl Wncl Jacob!

Ac wrth gwrs mae 'llwybr tarw' yn hen ddywediad am wneud taith yn fyrach. *'Short cut'* yn Saesneg.)

**John Vivian Harris**  
**Nottingham**

Wedi'i gyhoeddu yn wreiddiol yn Yr Enfys, Journal of Wales International Rhif 12 Haf 2006.



## Colofn Llyfrau

### Blodwen a Gwendolin

YM mywyd dysgwr yr iaith Gymraeg mae 'na ddwy fenyw bwysig iawn. Dim Rhiannon na Blodeuwedd na hyd yn oed Jemima Nicholas. Blodwen a Gwendolin ydyn nhw. Mae gwaith gwahanol da'r ddwy. Llyfrgellydd yw Blodwen; newyddiadurwraig yw Gwendolin. Mae Blodwen Jones yn sengl, yn dri deg wyth oed ac yn chwilio am briod. Mae hi'n cael problemau gyda dynion o hyd. Mae 'na Llew Morgan, athro ei dosbarth, Hywel, Andrew, Sion — fydd hi'n dod o hyd i Mr Perffaith?

Mae problemau 'da Gwendolin hefyd. Mae Derek ym Mryste, ond mae Mam-gu, hen fenyw wyth deg oed "ystyfnig fel mul", yng Nghymru. Yn anffodus, mae rhaid i Gwendolin dreulio ei gwyliau hi gyda Mam-gu, dim gyda Derek. Maen nhw'n aros mewn gwesty gydag ysbrydion - neu gorff? - yn y coridor ganol nos. Roedd Tad-cu Gwendolin yn rheolwr asiantaeth dditectif. Mae Mam-gu'n moyn darganfod y llofrudd. Os dych chi wedi darllen "The First Ladies Detective Agency" gan Alexander McCall Smith, dych chi'n gallu dychmygu Mam-gu fel Ma Ramotswe yr Botswana, ffurf Gymreig.

Safon yr iaith Gymraeg yw'r peth pwysig ar gyfer dysgwr o Sais. Dydy Cymraeg y llyfrau hyn ddim yn Gymraeg grand 'posh' fel Cymraeg Kate Roberts neu hyd yn oed Dafydd Parry. Mae Cymraeg Blodwen a Gwendolin yr Gymraeg bob dydd gyda'r eirfa dych chi angen pan dych chi'n dechreu (a chyfieithiadau defnyddiol ar waelod y dudalen).

Mae'n bwysig dweud y gair yn y ffordd mae Sais yn meddwl am bethau e.e. "Mae e'n ddyn o ychydig eiriau" (t.39 Gwendolin Pan P.1.) = "A man of few words". A'rjôcs! Maen nhw'n siwr o darddu o hwyl y Sais. E.e. "Mae hi'n ddwy frechdan yn brin o bicnic".? (t.73 Gwendolin Pan) Dych chi'n cytuno?

Mae'r llyfrau 'ma yn y gyfres arloesol i ddysgwyr: 'Nofelau Nawr' gan Gwasg Gomer. Maen nhw'n addas i rai sydd wedi bod yn dysgu am flwyddyn neu ddwy. Bethan Gwanas yw awdur "Bywyd Blodwen Jones" "Blodwen Jones a'r Aderyn Prin" "Tri Chynnig i Blodwen Jones"; Meleri Wyn James yw awdur "Gwendolin Pan P.1."

John Gordon

#### **Dysgu Cymraeg**

Mae'r iaith hon yn gwreichioni - yn cynnau Cannwyll, ysbrydoli; Unwn yn ei goleuni A nerth ein calonnau ni!

Cyd-ddysgwr

## Hanes Anthony Masson

ANTHONY ydy fy enw, ac enw fy ngwraig ydy Christine. Dw i'n dod o Swydd Efrog yn wreiddiol, ac roeden ni'n byw yn Bradford am drideg mlynedd, ond ddwy flynedd yn ôl gwnaethon ni symud i dref Knutsford yn Swydd Caer.

Dan ni'n mynd i Ogledd Cymru ar ein gwyliau ers blynyddoedd lawer, a rhyw chwe mlynedd yn ôl prynon ni fwthyn bach ym mhentref Efailnewydd ger Pwllheli. Bron i bedair blynedd yn ôl redden ni'n cerdded ger Llithfaen ym Mhenrhyn Llyn, a daethon ni o hyd i Nant Gwrtheyrn, hen bentref chwarelwyr. Canolfan iaith Genedlaethol Cymru ydy'r Nant dyddiau 'ma, ac yn sydyn penderfynon ni geisio dysgu Cymraeg.

Dechreuon ni ddysgu yn y Nant ym Mis Awst 2003, ac ar unwaith roedd gen i ddiddordeb mawr yn yr iaith ryfedd newydd. Ymunon ni a Chymdeithas Dewi Sant yn Bradford, lle mae Eileen Walker yn trefnu dosbarth Cymraeg unwaith y pythefnos. Dan ni'n dal i fynd yno yn aml, er bod ni wedi symud i Knutsford erbyn hyn!

Ar ôl i ni symud, ymunon ni a Chymdeithas Gymraeg Northwich, ac maen nhw'n cwrdd a'u gilydd bob mis. Mae nifer ohonyn nhw'n siarad Cymraeg fel iaith gynta, a mae hynny'n fendigedig.

Mae pawb yn Efailnewydd yn siarad Cymraeg efo fi dyddiau'ma, ac wrth gwrs dw i'n ceisio siarad Cymraeg trwy'r amser dw i yng Nghymru. Sawl gwaith erbyn hyn dan ni wedi bod yn yr Ysgol haf ym Mhwillheli, ac hefyd yn mynd i'r "Sadwrn Siarad" sy'n cael ei drefnu gan Fenter iaith Gwynedd.

Ers i ni symud dros y Pennines, dw i'n medru gwrando ar Radio Cymru bob dydd, ac hefyd, flwyddyn yn ôl cawson ni deledu digidol, felly dw i'n cael S4C bellach.

Ers i ni ddechrau dysgu Cymraeg dan ni wedi gwneud ffrindiau newydd mewn nifer o lefydd. Dw i'n hoffi siarad a darllen Cymraeg yn fawr iawn, a dw i'n falch iawn bod ni wedi dysgu'r iaith hon. Pob dymuniad da i bawb.

Anthony Masson

(Dysgwr ers tair blynedd a hanner)

#### **Clwb Clebran Matlock Rhaglen 2007**

**Dydd Sul 25 Mawrth** Sgwrs a Choffi, cwrdd 2 o'r gloch yn y lolfâ uwchben Siop Llyfrau Cornerstones, Dale Road, Matlock.

**Dydd Sul 15 Ebrill** Sgwrs a Choffi, cwrdd 2 o'r gloch yn y lolfâ uwchben Siop Llyfrau Cornerstones, Dale Road, Matlock

**Dydd Sul 20 Mai** Taith Cerdded Cymraeg. Cwrdd 1 o'r gloch ar faes parcio, Gorsef Tren Whatstandwell, Swydd Derby. Taith Cerdded 4 milltir o hyd.

**Dydd Sul 17 Mehefin** Taith Cerdded Cymraeg. Cwrdd 1 o'r gloch ar faes parcio, Gorsef Trên Matlock, Swydd Derby. Taith Cerdded 4 milltir o hyd.

Rhiff ffôn 07709 238680



## GWYLIAU DRAMOR

DOEDD Emyr a Win Lloyd o Bontrhydyfen, pentref bach ger Port Talbot, ddim yn meddwl am gymryd gwyliau y flwyddyn honno; doedd dim digon o arian gyda nhw. Roedd eu mab Heini newydd orffen cwrs gradd ym mhrifysgol Llanbedr, a doedd e ddim yn gweithio eto; roedd eu merch Mair yn mynd i briodi y flwyddyn ganlynol, felly byddai'n rhaid iddyn nhw gynilo pres dros y gaeaf.

Ond yna gwelodd Emyr hysbyseb yn y swyddfa deithio 'Travel is Us' yn Port Talbot. "Gwyliau mewn gwesty pum seren am bris arbennig." Pan aeth Emyr i mewn i'r siop esboniodd un o'r staff wrtho fod pâr arall wedi tynnu'n ôl yn hwyr iawn. Aeth Emyr yn syth adre at Win i ddweud y newyddion

"Beth? i Ffrainc ddydd Sadwrn nesa?" holodd Win. "Oes amser 'da ni i baratoi ar gyfer y daith? A beth am y gost? Roedden ni i fod i gynilo arian eleni!"

"Mam," meddai Heini, "rydych chi wedi gwneud digon dros Mair a fi yn y gorffennol. Rydyn ni eisiau i chi fynd a mwynhau eich hunain".

"Pwy fydd yn mynd â ni i'r maes awyr? holodd Mam.

"Heini a fi, wrth gwrs," meddai Mair, "Mae'r ddau ohonon ni'n gallu gyrru."

Felly, ar y nos Sadwrn ganlynol, roedd Emyr a Win Lloyd yn eistedd ar falconi eu hystafell yn y Trianon Palace Hotel, Versailles, yn edrych ar olau'r lleuad ar y llyn.

Ar ôl ychydig dyddiau dyweddod Win wrth Emyr "Rydw i wedi cael llond bol ar fwyta mewn gwesty crand bob nos. Gad i ni fynd i chwilio am westy syml 100% Ffrengig.

Roedden nhw wedi bod yn cerdded am tua deuddeg munud pan welson nhw arwydd yn y pentref bach: 'Gwesty Rhyngwladol'. Roedd o'n westy bach go iawn, ond ar y ffenestr roedd arwydd mawr: 'Man Spricht Deutsch', 'Si Habla Espanol' ac, hefyd, 'Siarad Cymraeg'.

Edrycha Emyr!, meddai Win. Maen nhw'n siarad Cymraeg yn y gwesty 'ma. Dyma wyrth!

Aeth Emyr a Win i mewn i'r gwesty. Dywedodd Emyr wrth y gweinydd "Bore Da, monsieur. Rydych chi'n siarad Cymraeg?" "Pardon, monsieur, je ne comprends pas" meddai e wrth Emyr.

"Ond pam?" gofynnodd Win "Yn ôl y ffenestr – sur fenêtre – siarad Cymraeg! Chi sy'n siarad Cymraeg yma?"

"Mais c'est vous, madame."

Meddyliodd y Cymry am foment Oh, y ni sy'n siarad Cymraeg! Chwarddodd y ddau ohonyn nhw. Dyna ateb da i'r broblem!

John Gordon

## Dehongli Cymru

Dydd Mercher 11 Ebrill—Dydd Gwener 13 Ebrill 2007

Rhowch gynnig ar rywbeth newydd yn y Gymraeg

Yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg gymryd rhan mewn trafodaethau am hanes, gwleidyddiaeth, cymdeithas a diwylliant Cymru. Ysteried cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynigir llety yn Neuadd Pantycelyn ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Pris llawn £66.25. Cysylltu a'r Canolfan Ehangu Cyfranogiad, Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth SY23 2AX. Ffôn 01970 621890 neu ebost ar [wpsi@aber.ac.uk](mailto:wpsi@aber.ac.uk)

## CYRSIAU UNDYDD A PHENWYTH-NOS YN Y GYMRAEG ONE-DAY AND WEEKEND COURSES IN WELSH

### Tymor y Gwanwyn 2007 Spring Term 2007

Llanelwy 3 Mawrth 2007  
Llangefni 10 Mawrth 2007

Manylion pellach oddi wrth / Further details from:

Elwyn Hughes  
Cyrsiau Cymraeg i Oedolion  
Ysgol Dysgu Gydol Oes  
Prifysgol Cymru  
BANGOR LL57 1UT  
[ems403@bangor.ac.uk](mailto:ems403@bangor.ac.uk)  
01248 382259


## Y Cysylltiad Derwent

Tua phum mlynedd yn ôl sylweddolais bod hi'n hen bryd i ddysgu Cymraeg. Roeddwn i yng Nghymru a'r beic, fy ail neu trydedd taith yno. Roeddwn i ar goll yn agos at Wrexham a gofynnais i rywun am y ffordd i "Cowed Poweth". Mae'r dyn wedi gofyn i mi "Coedpoeth?"; a rôn i'n gwybod roedd gen i broblem.

Gartref yn Lloegr ar ôl fy nhaith, gwelais hysbysiad am ddosbarth Cymraeg yn Keighley, ond mae'r ferch yn y Coleg wedi dweud fod y dosbarth yn annhebygol o ddechrau achos doedd dim digon o ddiddordeb. Ond pythefnos ar ôl roeddwn i'n gweithio yng Nghwm Derwent yn Swydd Derby (y cysylltiad Cymraeg) pan oedd y ferch wedi galw (yn saesneg wrth gwrs) "Mae'r dosbarth Cymraeg yn dechrau am saith o'r gloch heno",

Felly gyrrais adre, a rydw wedi dechrau dysgu Cymraeg y nos yna. Nawr rydw i'n falch i ddweud mod i'n medru gofyn yn Gymraeg am y ffordd i Goedpoeth, Llanidloes, Llanystumdwy neu Llanfair PG. Faswn i'n deall tasen nhw'n ymateb yn Gymraeg? Dydw i ddim yn Siwr. Dw i'n dal i ddysgu.

Stephen Haigh



## Rysait Bara Brith

MAE llawer o fersiynau bara brith. Mae rhai heb burum, braidd fel torth sultana. Serch hynny dw i'n cofio, pan on i'n blyntyn yng Nghymru, bod bara brith yn cael ei wneud gyda burum. Roedd e'n sbeislyd iawn ac yn cael ei ddarparu gyda llawer o fenyn.

- 1 pwys / 450g o flawd plaen cryf
- 4 lwy de o furum sych (neu ½ owns / 15g o furum ffres)
- 8 owns hylif / 225ml o laeth
- 2 owns / 55g o siwgr brown,
- 1 lwy de o halen
- 3 owns / 85g o fenyn neu fargarin
- 1 ŵy (maint canolig)
- 1 lwy de o sbeis Cymysg
- 12 owns / 340 g o ffrwythau sych cymysg
- Tun torth 2 pwys, wedi ei iro yn iawn.

Cynheswch y llaeth mewn sosban fach tan fod e'n ddim ond mor boeth â.ch llaw. Tywalltwch y llaeth mewn powlen ac ychwanegwch un lwy de o siwgr a'r burum. Cymysgu yn iawn a gadewch mewn lle cynnes tan fod e wedi ewynnu (tua 15 munud.)

Rhidyllwch y bawd a halen i mewn powlen fawr. Ychwanegwch y siwgr, irwch i mewn y menyn. Ychwanegwch yr ŵy a'r hylif burum. Cymysgwch tan bod toes yn cael ei ffurfio. Gosodwch y toes ar wyneb gwaith (gyda tipyn bach o flawd) a thylwch y toes tan fod e'n dod yn llyfn ac yn hydwyth (tua 10 munud). Gosodwch y toes yn ôl yn y bowlen, gorchuddiwch y bowlen gyda brethyn a gadewch hi tan bod maint y toes wedi dyblu (tua 1½ awr.)

Gosodwch y toes yn ôl ar y wyneb gwaith a chnociwch e i lawr i fwrw yr awyr allan. Tylinwch gyda'r ffrwyth, wedyn ffurfiwch dorth a gosodwch mewn tun torth. Gorchuddiwch a gadewch e tan fod e braidd wedi codi uwchben top y tun (tua 30-35 munud).

Cynheswch y popty i 190C (375F neu nwy 5). Coginiwch y dorth am hanner awr, yna gorchuddiwch e gyda ffoil i atal rhag mynd yn rhy frown. Wedyn coginio am hanner awr arall. Gadael y torth i oeri ar resel wifr. Dych chi'n gallu sgleinio pen y dorth efo mêl tra bod y torth yn oeri. Darparwch fel sleisen gyda menyn.

Allan Child

## CYMDEITHAS CYMRU NOTTINGHAM

SWYDDOG CYHOEDDUSRWYDD

GWYNNE DAVIES 0115 925 9613

Mae'r gymdeithas yn cwrdd am 7.15 y.h. yn Eglwys Saint Andrew, Chaucer Street, Nottingham.

### Rhaglen 2007

**Cinio Gŵyl Dewi**

Nottingham University Staff Club

**Dydd Sadwrn 17 Mawrth, 6.30 y.h.**

Cymanfa Ganu Nottingham

**Nos Fercher Ebrill 18**

Dr Glyn Yeoman member's Evening

**Nos Wener 4 Mai**

Noson Lawen efo Cymdeithas Gymreig Derby yn Derby.

**Nos Fercher 16 Mai**

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

## CYMDEITHAS GYMREIG DERBY

YSGRIFENNYDD DAVID EDWARDS

01332 672387

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod yn Eglwys y Bedyddwyr Broadway, Broadway, Derby, ar ddydd Gwener cyntaf bob mis am 7.30 y.h.

### Rhaglen 2006 –2007

**Nos Sadwrn 3ydd Mawrth**

Cinio Dewi Sant

**Nos Wener 13deg Ebrill**

Noson Cwis

**Nos Wener 4ydd Mai**

Noson Lawen

**Nos Wener 8fed Mehefin**

Mr Lloyd Jones

*Mr Vogel Teithio yng Nghymru*

**Nos Wener 6ed Gorffennaf**

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

### Cysylltu a'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Trwy ffônio 07709 238680 neu gysylltu ar lein ar [www.derbywelshlearnerscircle.fusiveweb.co.uk](http://www.derbywelshlearnerscircle.fusiveweb.co.uk). Mi fydd'na groeso gynnes i bawb!

## Cysylltu a'r Llais Y Derwent

Mi ddylwch chi anfon erthyglau a llythyrau i Llais y Derwent, 47 High Street, Belper Derby DE56 1GF cyn diwedd Mis Mawrth ar gyfer y rhifyn nesa.